



ADRODDIAD

Arolwg Ymwelwyr Tymor yr Haf 2018

Cadw



Strategic Research and Insight Ltd
4 Park Court Mews
Plas y Parc
Caerdydd, Cymru
CF10 3DQ
Ffôn: ++44 (0)29 2030 3100

www.strategic-research.co.uk

Cynnwys

Tudalen

1. Prif ganfyddiadau	3
2. Sut a pham y mae'r ymchwil hon wedi'i chynnal?	5
3. Canlyniadau	7
4. Goblygiadau i Cadw.....	27

1. Prif ganfyddiadau

Mae profiadau yn parhau i berfformio'n well na'r disgwyl

Mae tua dau mewn pump (39%) o ymwelwyr yn disgrifio eu profiad ar safle Cadw fel 'llawer gwell na'r disgwyl', ac mae chwarter pellach (24%) yn ei ddisgrifio fel 'ychydig yn well na'r disgwyl'. Dim ond canran leiafrifol (2%) a oedd yn siomedig.

Mae Caerllion yn parhau i synnu ymwelwyr yn fawr, gyda'r rhan fwyaf (82%) yn disgrifio'r profiad fel 'llawer gwell na'r disgwyl'. Mae Rhaglan hefyd yn synnu ymwelwyr (mae 65% yn dweud ei fod yn llawer gwell na'r disgwyl).

Mae'r bodddhad cyffredinol yn parhau i fod yn uchel iawn

Mae ymwelwyr â safleoedd Cadw ar gyfartaledd yn rhoi 9.3 allan o 10 am y profiad. Mae pob safle ar gyfartaledd yn derbyn 9.0 allan o 10 o leiaf. Mae 'cyfeillgarwch' a 'gwybodaeth' staff yn cael sgôr gyfartaledd o 9.5 – mae pob safle ar gyfartaledd yn derbyn 9.0 o leiaf, ar y ddwy agwedd.

Addasrwydd ar gyfer plant

Mae 'addasrwydd ar gyfer plant rhwng 8 a 15 oed' yn derbyn sgôr uchel (9.3), ond mae 'addasrwydd ar gyfer plant rhwng 0 a 7 oed' (8.7 ar gyfartaledd) yn faes i'w wella o hyd. Mae pob safle heblaw Caerllion (9.7) a Rhaglan (9.5) yn cael sgôr o lai na 9 ar gyfartaledd.

Amser aros hirach

Mae'r amser aros cyfartalog yn safleoedd Cadw tua 1.6 awr – cynnydd o 1.3 awr yn haf 2015. Mae'r amserau aros hiraf yng Nghaernarfon (2.1 awr) a Chaerffili (1.9 awr).

Y proffil ymwelwyr yn parhau heb ei newid

Mae'r proffil ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ôl rhyw, oedran, preswylfa, grŵp economaidd-gymdeithasol a grŵp ethnig yn parhau heb ei newid ers haf 2015.

Arweinlyfr A sydd orau ar gyfer dyluniad a gwerth

O'r tri arweinlyfr a ddangoswyd, Arweinlyfr A (mawr a thrwchus – £4.95) yw'r gorau gan 48% o ymwelwyr ar gyfer dyluniad a 53% o ymwelwyr ar gyfer gwerth am arian. Hwn yw'r dewis a ffeirir am ddyluniad a gwerth gan bob math o barti a tharddiad ymwelwyr. Dyweda rhai ymwelwyr fod cyfoeth y wybodaeth ynddo yn ei wneud yn gofrodd dda.

Arweinlyfr C sydd orau ar gyfer maint

Arweinlyfr C (sy'n fach ac yn plygu allan – £2.50) yw'r gorau gan 44% o ymwelwyr ar gyfer maint. Mae teuluoedd â phlant ifanc yn ei hoffi'n arbennig gan eu bod eisoes gorfod cario llawer o bethau.

Arweinlyfr B (mawr a thenau – £3.50) yw'r lleiaf hoff ym mhob agwedd (dyluniad, maint, gwerth) gan bob math a tharddiad o ymwelwyr.

Caerffili

Mae cyfweliadau yng Nghaerffili wedi cael eu cynnal cyn ac ar ôl gwaith ar atyniadau newydd, a gwblhawyd yng nghanol mis Awst. Gwahaniaethau sylweddol mewn canlyniadau cyn ac ar ôl yr

atyniadau newydd fel a ganlyn:

- Mae 43% yn disgrifio eu profiad fel 'llawer gwell' na'r disgwyl ar ôl y gwaith (o'i gymharu â 27% yn flaenorol)
 - Mae 69% yn disgrifio'r wybodaeth fel 'newydd ac atyniadol' ar ôl y gwaith (o'i gymharu â 55% yn flaenorol)
-

2. Sut a pham y mae'r ymchwil hon wedi'i chynnal?

Llywio strategaeth farchnata Dymunodd Cadw ddeall proffil ei ymwelwyr a'u profiad ar safleoedd Cadw er mwyn llywio strategaeth farchnata'r dyfodol.

Adeiladu ar ymchwil flaenorol Cynhaliodd Cadw arolygon ymwelwyr hefyd yn nhymor yr haf 2015 a thymor ysgwydd 2018. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud cymariaethau â'r ddau arolwg drwyddi draw, ble mae gwahaniaethau yn sylweddol.

Cyfweliadau wyneb yn wyneb Cynhaliwyd 3,075 o gyfweliadau gennym mewn 20 safle Cadw yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn 2018, yn defnyddio holiadur sy'n seiliedig ar arolygon blaenorol Cadw. Dangosir strwythur y sampl yn ôl safle isod:

Safle	Nifer y cyfweliadau
Biwmares	232
Blaenafon	123
Caerllion	150
Caernarfon	352
Caerffili	388
Castell Coch	164
Cas-gwent	178
Conwy	325
Cricieth	141
Dinbych	30
Harlech	204
Cydweli	124
Plas Mawr	41
Rhaglan	208
Rhuddlan	69
Ystrad Fflur	31
Tyddewi	44
Abaty Tyndyrn	193
Tretŵr	46
Abaty Glyn y Groes	32
Cyfanswm	3,075

**Strwythur y
dadansoddiad**

Ar bob siart, dangoswn y canlyniadau cyffredinol oherwydd byddai'r siart yn rhy gymhleth ac yn annealladwy pe baem yn ei rhannu fesul safle. Rydym yn tynnu sylw at wahaniaethau rhwng safleoedd yn y testun drwyddi draw ac rydym hefyd wedi cynhyrchu croes-dabliadau cysylltiedig lle gellir gweld yr holl ganlyniadau ar gyfer cwestiynau ag atebion mesuradwy yn ôl safle.

Wrth wneud cymariaethau yn ôl safle yn yr adroddiad hwn, rydym yn cadw at safleoedd â mwy na 100 o gyfweiliadau. Gellir gweld y canlyniadau ar gyfer safleoedd llai yn y ffeil 'croes-dabliadau yn ôl safle bach'.

3. Canlyniadau

Proffil ymwelwyr

Proffil	2018 (tymor yr haf)	2018 (y tymor ysgwydd)	2015 (tymor yr haf)
Rhyw			
Gwryw	47%	50%	50%
Benyw	53%	50%	50%
Oedran			
0 – 7	11%		12%
8 – 15	14%		13%
16 – 24	10%		7%
25 – 34	11%	<i>Ni ellir cymharu'r</i>	11%
35 – 44	16%	<i>cwestiwn</i>	17%
45 – 54	12%		15%
55 – 64	11%		11%
65+	15%		14%
Grŵp economaidd-gymdeithasol			
AB	43%	44%	39%
C1	36%	37%	38%
C2	14%	13%	15%
DE	7%	6%	8%
Lle mae'n byw			
Cymru	27%	33%	25%
Gweddill y DU	54%	54%	56%
Tramor	19%	13%	19%
Ethnigrwydd			
Gwyn	97%	95%	96%
Arall	3%	5%	4%

Mae canrannau ar gyfer grŵp economaidd-gymdeithasol ac oedran wedi cael eu hailysylfaenu er mwyn anwybyddu ymatebwyr sy'n gwrthod ateb

Cyfran uchel o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn y tymor brig

- 3.1 Mae niferoedd yr ymwelwyr â Chymru o'r DU a thramor yn uwch yn nhymor yr haf, sy'n cael ei adlewyrchu ym mhroffiliau preswyl ymwelwyr yn safleoedd

Cadw – mae 73% o ymwelwyr yn dod o'r tu allan i Gymru. Does dim gwahaniaethau sylweddol yn y proffil ymwelwyr rhwng haf 2015 a haf 2018.

3.2 Mae'r map isod yn dangos o ble daw ymwelwyr o'r DU:




3.3 Yn debyg i'r tymor ysgwydd, mae'r rhan fwyaf o Gymru a'r rhan fwyaf o Loegr yn cael eu cynrychioli'n dda gan ymwelwyr yn safleoedd Cadw, ond nid yw gogledd-ddwyrain Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli mor dda.

3.4 Mae'r map isod yn dangos o ble daw'r ymwelwyr o dramor:



3.5 Mae'r gyfran o ymwelwyr o dramor wedi cynyddu ers y tymor ysgwydd i tua un rhan o bump (19%), sydd yr un gyfran ag yn ystod haf 2015. Eto, mae pob cyfandir yn cael ei gynrychioli, ond mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr o dramor yn teithio o Ewrop.


Prif bwrpas yr ymweliad â'r ardal



Mae cestyll yn parhau i ddenu pobl ar eu gwyliau

- 3.6 Mae tua dwy ran o dair (65%) o ymwelwyr i bob safle yn dweud mai prif bwrpas eu hymweliad yw gwyliau i ffwrdd o'r cartref. Mae hyn yn gynydd bach ers y tymor ysgwydd, pan gafodd 60% o ymweliadau eu gwneud gan bobl ar eu gwyliau.
- 3.7 Mae safleoedd yn y gogledd yn parhau i fod yn boblogaidd am ddyddiau allan ar gyfer twristiaid yn yr ardaloedd hynny. Mae Castell Harlech (Eryri), Castell Cricieth, Castell Caernarfon (y ddau yn agos i Eryri) a Chastell Biwmares (Ynys Môn) i gyd wedi gweld cyfrannau mawr o bobl ar eu gwyliau (yn uwch nag 80%) ymysg eu hymwelwyr dros yr haf.
- 3.8 Yn y cyfamser, mae safleoedd yn rhanbarth y de-ddwyrain yn denu tua hanner o'u hymwelwyr o'r rheiny sydd ar ymweliadau dydd o'r cartref. Mae hyn yn debyg i'r tueddiadau a welwyd yn y tymor ysgwydd.
- 3.9 Ar gyfer rhai o'r safleoedd hyn, fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o ymwelwyr dydd o'i gymharu â blynnyddoedd blaenorol. Yn arbennig, gwelwyd cynnydd cyson yng Nghastell Cas-gwent, o 40% yn haf 2015 i 55% yn y tymor brig hwn.

Pellter y siwrnai i'r safle




Newid yn y pellter a drafeliwyd i Gastell Conwy

- 3.10 Yn ystod tymor yr haf yn 2015 ac yn y tymor tawel y flwyddyn hon, roedd Castell Conwy yn denu'r ymwelwyr mwyaf yn teithio dros 50 milltir i'w gyrraedd (traean o ymatebwyr yn y ddau dymor). Fodd bynnag, y tymor hwn mae wedi disgyn i tua un rhan o bump (19%).
- 3.11 Y tymor hwn, mae Caerllion wedi denu'r ymwelwyr mwyaf sy'n teithio o bell, gyda thua chwarter (27%) o ymwelwyr yn teithio dros 50 milltir i'w ymweld.

Newid rhanbarthol o ran safleoedd yn gweld ymwelwyr yn teithio pellteroedd llai

- 3.12 Mae Castell Harlech wedi gweld newid sylweddol yn y nifer o ymwelwyr sy'n teithio 10 milltir neu lai (45% – o'i gymharu â 30% yn y tymor ysgwydd).
- 3.13 Yn ne-ddwyrain Cymru, mae Castell Coch wedi gweld lleihad sylweddol yn y nifer sy'n teithio'r pellter lleiaf (39% o 48%) ers y tymor ysgwydd, a Chastell Caerffili yn yr un modd (30%, i lawr o 40%).

Math o grŵp



Amrywiaeth eang o fathau o grwpiau


- 3.14 Mae gan safleoedd Cadw apêl eang ac adlewyrchir hyn yn yr ystod o fathau o grwpiau sy'n ymweld.
- 3.15 Mae nifer y teuluoedd â phlant iau (33% o grwpiau)¹ cryn dipyn yn fwy na nifer y teuluoedd â phlant hŷn (15% o grwpiau). Gall hyn awgrymu y credir bod safleoedd Cadw yn apelio'n fwy at blant iau na phlant hŷn, ond mae canlyniadau nes ymlaen yn C16 yn dweud fel arall. Mae'n bosibl y gall y gwahaniaeth yn y proffil adlewyrchu faint o bobl yn eu harddegau sydd am fynd allan am y dydd gyda'u rhieni mewn gwirionedd.

Mae Caerffili a Biwmares wedi denu'r gyfran fwyaf o deuluoedd â phlant ifanc

- 3.16 Mae bron i hanner (45%) o'r grwpiau sy'n ymweld â Chastell Caerffili a Chastell Biwmares yn deuluoedd â phlant ifanc. Yn achos Biwmares, mae hyn yn newid sylweddol yn y mathau o grwpiau ers y tymor ysgwydd, pan oedd tua thraean (35%) o ymwelwyr yn gyplau.
- 3.17 Mae Abaty Tyndyrn wedi denu'r gyfran uchaf o gyplau (45% o grwpiau). Mae hyn yn debyg i'r tymor tawel (44%) ac yn haf 2015 (42%).

¹ Cafwyd y ffigur hwn trwy ychwanegu'r teuluoedd â phlant iau (28%) a'r teuluoedd â phlant iau a phlant hŷn (5%).

Ymweliadau blaenorol




Cyfran uchel o ymwelwyr newydd â phob safle

3.18 Mae tua dwy ran o dair (69%) o gyfanswm yr ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ymweld â nhw am y tro cyntaf, ac nid yw hyn yn wahanol i haf 2015. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r nifer uchel o bobl ar eu gwyliau sy'n ymweld â'r safleoedd yr adeg hon o'r flwyddyn.

3.19 Y safleoedd sy'n denu'r cyfrannau mwyaf o ymwelwyr newydd yw:

- Castell Cricieth (81%)
- Castell Rhaglan (75%)
- Castell Harlech (74%)
- Caerllion (74%)


Ymweld ag atyniadau hanesyddol eraill



Mae ymwelwyr yn mynd nôl mewn amser yn ystod yr haf

- 3.20 Roedd bron i ddwy ran o dair (63%) o ymwelwyr â safleoedd Cadw yr haf hwn eisoes wedi ymweld ag o leiaf un atyniad hanesyddol arall o fewn y tri mis cyn eu hymweliad. Mae hyn yn gynydd sylweddol ar ganlyniadau'r tymor ysgwydd (49%), a gallai ddangos bod ymwelwyr yn ystyried y rhannau cynhesach a sychach yn y flwyddyn fel y 'tymor atyniadau hanesyddol' i ryw raddau.
- 3.21 Mae Caerllion wedi denu'r ymwelwyr sy'n fwy cyfarwydd ag atyniadau hanesyddol, gyda dwy ran o bump (41%) yn ymweld â'u pedwerydd atyniad hanesyddol o leiaf o fewn y tri mis diwethaf.

Dylanwadau ar y penderfyniad i ymweld



Diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol yn parhau i fod yn ddylanwadol


3.22 Yn debyg i ganfyddiadau blaenorol, y prif gymhelliad i ymweld â safleoedd Cadw yw bod gan y mwyafrif (70%) o ymatebwyr ddiddordeb mewn cestyll a safleoedd hanesyddol.

3.23 Ers y tymor ysgwydd, mae'r ymwelwyr a oedd '*eisiau gweld arddangosfa benodol*' wedi gostwng i 5% (o 31%). Mae hyn, hwyrach, oherwydd bod llai o angen am ddigwyddiadau i roi hwb i nifer yr ymwelwyr ym mis Awst, mewn cymhariaeth â'r tymor ysgwydd, lle roedd angen cynnal cyfweiliadau ar ddiwrnodau digwyddiadau yn aml (er mwyn dod o hyd i ddigon o ymwelwyr).

Diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yn tyfu yn y de

3.24 Mae diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yn dueddol o fod yn gryfach yn y safleoedd yn y gogledd. Yn hyn o beth, Castell Harlech sydd â'r ganran uchaf (68%), ac mae safleoedd eraill yn y gogledd, gan gynnwys Castell Biwmares, Castell Conwy a Chastell Cricieth, i gyd â 57% o ymatebwyr sy'n rhannu'r diddordeb hwn.


3.25 Fodd bynnag, mae gwerthfawrogiad o ddiwylliant/hanes Cymru yn tyfu yn y de, yn arbennig ym Mlaenafon (60%), a thua hanner yr ymatebwyr yng Nghas-gwent a Chaerffili yn mynegi diddordeb.



Ychydig o amrywiadau yn y canlyniadau fesul safle

- 3.26 Yn debyg i 2015 a'r tymor ysgwydd, pan gyfyngwyd i'r ffactor unigol pwysicaf sy'n effeithio ar y penderfyniad i ymweld â safle, '*diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol*' yw'r dylanwad unigol pwysicaf o hyd (39% o ymatebwyr).
- 3.27 Mae'r cyfrannau uchaf yn ateb '*diddordeb mewn cestyll / safleoedd hanesyddol*' i'w gweld yn safleoedd Caerllion (53%) a Chas-gwent (49%) yn y de-ddwyrain.
- 3.28 Mae'r cyfrannau uchaf yn ateb '*eisiau dysgu mwy am y safle hwn*' i'w gweld yn safleoedd yn y gogledd: Cricieth (29%), Conwy (22%) a Chaernarfon (21%).

Disgwyliadau teulu ar gyfer profiad plant




Cyfle i ddysgu a chael hwyl

- 3.29 Mae'n edrych yn debyg fod teuluoedd â phlant yn ymweld â safleoedd Cadw yn y gobaith o ddysgu wrth gael hwyl, sy'n atgynhyrchu canlyniadau tebyg yn haf 2015. Mae'r rhan fwyaf (71%) o deuluoedd â phlant yn gobeithio cael cyfuniad o ddysgu a hwyl.
- 3.30 Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y safleoedd; wedi dweud hyn, gellir gweld rhai newidiadau sylweddol yn rhai o'r safleoedd o ran yr hyn mae teuluoedd yn gobeithio ei gyflawni o'u hymweliad ers haf 2015.
- 3.31 Yng Nghaerllion, roedd 100% o deuluoedd yn rhoi mwy o bwyslais ar yr elfen ddysgu yn 2015, ond eleni mae teuluoedd wedi gwyro at gael hwyl, gyda 44% o deuluoedd yn ymweld am y rheswm hwnnw yn unig.
- 3.32 Roedd ymwelwyr â Chastell Coch hefyd wedi newid eu hagweddau dros ymweld ers 2015, pan oedd y rhan fwyaf (71%) o deuluoedd yn ymweld yn bennaf am hwyl. Eleni, mae tua hanner (48%) y teuluoedd â phlant yn rhoi pwyslais ar yr elfen ddysgu yn unig.

Nid yw gwahaniaethau yn ôl oedran eang plant yn arwyddocaol

- 3.33 P'un a yw grŵp yn cynnwys plant iau neu blant hŷn, nid oes gwahaniaeth sylweddol o ran cydbwysedd y cymelliadau (dysgu a hwyl).

Y profiad o'i gymharu â'r disgwiliadau




Mae safleoedd Cadw yn parhau i greu argraff

- 3.34 Ymddengys fod safleoedd Cadw yn parhau i ragori ar ddisgwiliadau ymwelwyr, gyda'r mwyafrif (63%) o ymwelwyr yn disgrifio eu profiad yn well na'r disgwyl.
- 3.35 Mae Caerllion yn parhau i synnu ymwelwyr yn fawr, gyda mwyafrif helaeth (82%) yn disgrifio eu profiad yn *llawer gwell* na'r disgwyl. Mae Rhaglan hefyd wedi syfrdanu ymwelwyr, gyda thua dwy ran o dair (65%) yn cael profiad llawer gwell na'r disgwyl.

Profiadau yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr ymweliadau blaenorol

- 3.36 Yn gyffredinol, mae'r safleoedd sy'n rhagori ar ddisgwiliadau yn dueddol o ddenu mwy o ymwelwyr tro cyntaf. Mae'r tri phrif safle sydd ag ymwelwyr yn mwynhau profiad 'llawer gwell na'r disgwyl' – Caerllion (82%), Rhaglan (65%) a Harlech (57%) – i gyd wedi denu tri chwarter o ymwelwyr am y tro cyntaf i'w safleoedd yr haf hwn.

Graddoli agweddau eraill ar y profiad



Gofynnwyd am addaswydd y safle i blant i ymwelwyr sydd â phlant yn y grŵp oedran perthnasol yn unig
Mae pob 'ddim yn gwybod' wedi'i eithrio o'r canlyniadau

Bodlonrwydd uchel yn parhau

- 3.37 Yn gyffredinol, mae ymwelwyr â safleoedd Cadw yn fodlon iawn (9.3 allan o 10) gyda'u hymweliadau dros yr haf hwn. Nid yw'r sgorau boddhad uchel wedi newid ers cyfnod prysur tymor 2015.
- 3.38 Unwaith eto, ymddengys fod ymwelwyr yn fwyaf bodlon yng Nghaerllion, sy'n cael sgôr uchel o 9.7 allan o 10; mae tri chwarter (75%) o'r ymatebwyr wedi rhoi sgôr lawn o 10 i'r safle. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer o brofiadau ymwelwyr a oedd yn rhagori ar y disgwyl (C14 uchod).

"Doeddwn i ddim yn sylweddoli cymaint oedd yma a pha mor dda a gedwid y safle."

Cwpwl ar wyliau

Gwerth am arian

- 3.39 Ceir sgôr gyfartalog uchel o 9.2 allan o 10 am werth am arian yn atyniadau Cadw. Mae'r sgorau ar draws y safleoedd yn weddol gyson, ond mae ychydig o bwyntiau i'w nodi:
- Mae cyfartaledd Caerllion yn eithriadol o uchel ar 9.8
 - Unwaith yn rhagor, mae gan Abaty Tyndyrn y sgôr gyfartalog isaf (ynghyd â Chas-gwent) ar 8.6

Staff arbennig

- 3.40 Mae ymwelwyr ar draws yr holl safleoedd wedi bod yn fodlon iawn ar gyfeillgarwch a gwybodaeth y staff, gan roi sgôr gyfartalog o 9.5 allan o 10 yn gyffredinol ar gyfer y ddwy agwedd.
- 3.41 Er mai bach iawn yw'r gwahaniaethau rhwng y safleoedd ar y ddwy agwedd, mae ychydig o bwyntiau i'w nodi:
- Mae gwybodaeth y staff wedi creu argraff fawr ar ymwelwyr â Biwmares, sydd wedi rhoi'r sgôr gyfartalog uchaf iddynt, sef sgôr berffaith bron o 9.9
 - Mae pob safle'n sgorio'n uwch na 9 allan o 10 am wybodaeth y staff
 - Mae'r sgorau cyfartalog uchaf am gyfeillgarwch y staff wedi'u nodi yng Nghaerllion a Harlech, sef 9.8 allan o 10 am y ddau ar gyfartaledd
 - Mae pob safle'n sgorio'n uwch na 9 allan o 10 am gyfeillgarwch y staff


Addasrwydd ar gyfer plant

- 3.42 Mae addasrwydd atyniadau Cadw ar gyfer plant yn amrywio fesul oedran y plant sydd dan sylw a hefyd fesul safle.
- 3.43 Mae addasrwydd ar gyfer plant hŷn (rhwng 8 a 15 oed) yn cael sgôr gyfartalog o 9.3 allan o 10. Mae'r sgôr yn arbennig o uchel yng Nghaerllion (9.7), ond nid yw rhai safleoedd yn y de-ddwyrain yn gwneud cystal – sef Abaty Tyndyrn (8.6) a Chas-gwent (8.7).
- 3.44 Nid yw'r sgorau addasrwydd ar gyfer plant iau (7 oed ac yn iau) gystal chwaith (8.7 ar gyfartaledd). Dyma'r sgorau uchaf:
- Caerllion (9.7)
 - Rhaglan (9.5)
- 3.45 Mae'r ddau safle hyn yn cael sgorau llawer uwch na'r lleill, sydd â chyfartaledd o lai na 9 allan o 10.

"Mwy o bethau rhyngweithiol i blant iau i'w diddori nhw fwy."
Teulu â phlant iau, Castell Caernarfon

"Nid yw'r wybodaeth yn apelio'n weledol at blant."
Teulu â phlant iau, Castell Cas-gwent


Hyd yr amser a dreuliwyd yn yr atyniad



Treulio'r haf ar safleoedd Cadw

- 3.46 Mae'r mwyafrif llethol (76%) o ymwelwyr wedi aros ar safleoedd Cadw am fwy nag awr yr haf hwn, mewn cymhariaeth â 62% o ymwelwyr yn 2015.
- 3.47 Y cyfnod aros ar gyfartaledd ymysg ymwelwyr yn ystod y tymor prysur yw 1.6 awr, sydd ychydig yn uwch na chyfnodau aros yn haf 2015 (1.3 awr).
- 3.48 Mae Castell Caernarfon (2.1 awr) a Chastell Caerffili (1.9 awr) yn amlwg fel y safleoedd sydd â'r amserau aros hiraf ar gyfartaledd – yn uwch na haf 2015 (y ddau yn 1.7 awr).
- 3.49 Yn ddi-ddorol, mae'r amser aros cyfartalog yng Nghaerllion yn parhau i fod yn fyr (0.9 awr), er i ymwelwyr deimlo'n fodlon iawn â'u hamser yno.


Ffynhonnell ymwybyddiaeth



Ffynonellau ymwybyddiaeth yn parhau i amrywio

- 3.50 Yn unol â chanfyddiadau blaenorol, mae ymwybyddiaeth yn deillio o ffynonellau amrywiol. Mae'r ddwy brif ffynhonnell o'r un fath â'r ddwy yn ystod y tymor ysgwydd ac yn 2015 – '*byw yn yr ardal / o hyd yn ymwobodol ohono*' (28%) ac '*ar lafar*' (22%). Fodd bynnag, gallai'r canlyniadau amrywiol ddangos tuedd cofio, lle mae'r ymatebwyr yn cael traferth cofio'r union modd y daethon nhw'n ymwobodol o'r atyniad gyntaf.
- 3.51 Ymhlith y ffynonellau ymwybyddiaeth mwy penodol a roddwyd, mae ffynonellau ar-lein ac oddi ar-lein wedi chwarae rôl wrth godi ymwybyddiaeth. Dyma'r safleoedd lle mae gwefan Cadw wedi codi ymwybyddiaeth fwyaf:
- Cas-gwent (11%)
 - Harlech (11%)
- 3.52 Dyma'r safleoedd lle mae'n debyg fod taflenni sy'n benodol i'r safle wedi codi ymwybyddiaeth fwyaf:
- Cas-gwent (20%)
 - Rhaglan (18%)
 - Harlech (18%)

Fformat y wybodaeth



Mae'r fformat yn parhau i blesio

- 3.53 Mae dros hanner (56%) yr ymatebwyr wedi cael fformat y wybodaeth ar safleoedd Cadw yn *'wreiddiol ac yn apelgar'*. Mae hyn yn debyg i'r canlyniadau a welwyd yn haf 2015 (60%).

"Bu cynnwys da o dechnoleg fodern."
Cwpwl, Castell Caerffili

"Mae'r manylion yn bersonol ac wedi'u hysgrifennu'n dda."
Teulu gyda phlant iau, Castell Rhaglan

- 3.54 Mae Caerllion yn llwyddo'n dda, gyda bron i bob un (94%) o'i ymwelwyr yn dweud bod y wybodaeth yn wreiddiol ac yn apelgar. Mae Castell Rhaglan hefyd yn llwyddo'n dda iawn gydag 87%.

"Mae'n addas ar gyfer pob oedran. Mae'r rhyngweithio'n dda iawn."
Teulu gyda phlant hŷn, Caerllion

"Mae pob ystafell yn gwneud i chi wir feddwl am y gorffennol – mae mor addysgiadol."
Cwpwl, Castell Rhaglan

- 3.55 Fodd bynnag, mae teimladau'r ymwelwyr tuag at fformat y wybodaeth yng Nghastell Conwy wedi gostwng ers tymor yr haf 2015, pan oedd hanner (51%) yr ymatebwyr yn ei gael yn apelgar. Haf eleni, tua thraean (32%) o ymwelwyr sydd wedi teimlo fel hyn.

"Mae angen mwy o wybodaeth ar y safle, yn enwedig ar gyfer plant yn eu harddegau."
Teulu gyda phlant hŷn, Castell Conwy

"Mae angen ei gryfhau ar gyfer plant."
Teulu gyda phlant iau a phlant hŷn, Castell Conwy

Awgrymiadau i wella gan ymwelwyr

- 3.56 Fel y byddid disgwyl, o ystyried y sgorau boddhad uchel ar draws holl safleoedd Cadw yn C16 uchod, dyweda sawl ymwelydd nad oes angen gwella unrhyw beth. Fodd bynnag, rhoddwyd ambell i awgrym nodedig ar safleoedd amrywiol.

Gwybodaeth ar rai safleoedd

- 3.57 Roedd yr awgrym mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r wybodaeth oedd ar gael ar y safleoedd. Roedd rhai ymwelwyr yn teimlo y gallai mwy o wybodaeth gael ei harddangos yn yr ystafelloedd a oedd yn agored i'r cyhoedd, yn enwedig yng Nghastell Caerffili a Chastell Conwy.

"Hoffwn fod wedi gallu darllen mwy ym mhob rhan o'r castell."
Cwpwl, Caerffili

"Mae angen mwy o hysbysfyrdau o flaen yr arddangosfeydd, yn ogystal â byrddau sy'n rhoi hanes y castell dros y canrifoedd."
Teulu â phlant ifanc, Caerffili

"Mwy o wybodaeth am ba offer a ddefnyddiwyd ac am bwy oedd yn byw yma."
Teulu â phlant hŷn, Rhaglan

Cyfleusterau arlwyo


- 3.58 Mae rhai ymwelwyr yn teimlo bod diffyg cyfleusterau arlwyo ar gael. Mae hyn wedi'i grybwyll droeon yng Nghaerffili a Chaernarfon, a theuluoedd â phlant yw'r rhai sydd wedi ei grybwyll fwyaf. Mae hyn yn nodedig oherwydd y gallai gwella cyfleusterau arlwyo annog ymwelwyr i aros yn hirach ar safleoedd Cadw.

"Ychydig o luniaeth ar y safle fel siop de gyda chacennau bach a byrbrydau."
Teulu â phlant hŷn, Caerffili

"Byddai siop goffi y tu mewn yn annog pobl i aros yn hirach."
Teulu â phlant ifanc, Caernarfon

"Byddai caffi bach yn ddelfrydol yma."
Teulu heb blant, Caerffili

Adborth ar arweinyfrau



P'un yw p'un?

- A = mawr a thrwchus (£4.95)
- B = mawr a thenau (£3.50)
- C = bach ac yn plygu allan (£2.50)

Dyluniad yr arweinyfr

3.59 Dyluniad Arweinyfr A sy'n well gan tua hanner (48%) yr ymatebwyr ar draws pob safle. O'r tri, Arweinyfr A sydd wedi'i rwymo orau ac sydd hawsaf ei ddarllen yn ôl yr ymatebwyr. Dyma'r dyluniad sydd orau gan bob grŵp o bob tarddiad (Cymru, y DU, tramor).

"Mae'r print yn well i'w ddarllen."
Cwplwl, Castell Coch

"Mae'n edrych yn gliriach ac mae llawer mwy o luniau."
Ymwelydd unigol, Castell Biwmares

"Mae'n gryfach ac yn teimlo mwy fel llyfr, ac felly gallwch ei gadw â'r dyluniad hwn a'r maint hwn oherwydd ei fod yn gryfach."
Cwplwl, Castell Cas-gwent

Maint yr arweinyfr

- 3.60 Arweinyfr C yw'r dewis lleiaf o ran maint ac, yn aml, hwn yw'r un sy'n cael ei ffafrio orau (44% o ymwelwyr). Mae'n arbennig o boblogaidd ymysg teuluoedd sydd â phlant ifanc, gyda thua hanner (47%) o ymatebwyr yn ei ddewis. Mae'r maint bach yn golygu bod yr arweinyfr yn eithaf cryno ac yn hawdd ei afael wrth gerdded o gwmpas y safleoedd.

"Mae'r llawlyfr maint poced – mae'n haws pori drwyddo ar y safle."
Teulu â phlant ifanc, Cas-gwent

"Mae'r maint llai yn well wrth ei gario â theulu ifanc yn ogystal â'r holl bethau eraill y mae'n rhaid i chi ddod â nhw ta beth."
Teulu â phlant ifanc, Cydweli

"Dydw i ddim eisiau cario llyfr trwm o gwmpas, felly C yw'r gorau."
Teulu â phlant ifanc, Conwy

- 3.61 Er mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y safleoedd, Caerllion yw'r unig safle sy'n ffafrio Arweinyfr A am ei faint (44% o ymwelwyr). Efallai bod hyn yn arwydd o'r cyfoeth o wybodaeth sy'n cael ei darparu yn yr arweinyfr, a nifer y rhai brwdfrydig dros atyniadau hanesyddol sy'n mynd i'r safle (a drafodwyd yn C10).

"Mae'n edrych fel petai'n llawn gwybodaeth ddiddorol."
Gyda ffrindiau, Caerllion

"Gallwch ei roi ar eich silff lyfrau – mae'n rhywbeth i'w gadw."
Teulu â phlant ifanc, Caerllion

Gwerth am arian

- 3.62 Er mai Arweinyfr A yw'r opsiwn mwyaf drud, gan gostio £4.95, mae tua hanner (53%) yr ymatebwyr yn dweud mai hwn yw'r arweinyfr gorau yn nhermau gwerth am arian. Efallai bod yr ymwelwyr yn teimlo fel hyn oherwydd mai hwn yw'r arweinyfr sy'n cynnwys y fwyaf o wybodaeth a gallant ei gadw fel cofrodd.

- 3.63 O ran gwerth am arian, mae pob math o grŵp a phob tarddiad ymwelwyr yn ffafrio Arweinyfr A.

"Dyma'r arweinyfr mwyaf cynhwysfawr am y gost ac y byddai'n gofrodd wych i fynd â hi'n ôl i'ch atgoffa chi am y trip."
Teulu â phlant iau a phlant hŷn, Caerllion

"O ystyried y cyd-destun a'r cynnwys, mae'n fforddiadwy iawn oherwydd bod cymaint ynddo."
Grŵp a drefnwyd, Abaty Tyndyrn

"Mae mwy o wybodaeth ac mae'n rhywbeth bach i gofio."
Ymwelydd unigol, Cas-gwent

"Mae gan Arweinyfr A lawer mwy o wybodaeth am bris nad yw'n llawer mwy na'r lleill."
Cwpwl, Biwmares

4. Goblygiadau i Cadw

Bodddhad uchel parhaus	Mae Cadw yn parhau i greu argraff ar y rhai sy'n ymweld â'i safleoedd, ac nid oes fawr o le i wella ar y rhan fwyaf o agweddau ar y profiad ymweld. Does dim amheuaeth y byddai'r staff yn gwerthfawrogi clywed yr adborth eu bod yn uchel eu parch am eu cyfeillgarwch a'u gwybodaeth.
A yw'r disgwyliadau blaenorol yn rhy isel?	Mae profiadau ymwelwyr yn parhau i fod yn well na disgwyliadau blaenorol – gan lawer yn aml. Er bod hyn yn newyddion da yn nhermau perfformiad yr atyniadau, a yw'n bosib fod rhai pobl yn peidio ag ymweld am nad ydynt yn disgwyl llawer o ymweld â safle Cadw? Nid yw'r cwestiwn hwn yn gallu cael ei ateb mewn arolwg ymwelwyr ond byddai'n rhaid cynnal ymchwil ymysg pobl nad ydynt yn ymwelwyr.
Addasrwydd ar gyfer plant	Er bod safleoedd Cadw yn cael sgorau da ar gyfer plant rhwng 8 a 15 mlwydd oed, mae addasrwydd ar gyfer plant rhwng 0 a 7 mlwydd oed yn parhau i gael ei weld fel gwendid ym mhob safle ar wahân i Gaerllion a Rhaglan. A allai unrhyw agweddau o'r hyn a gynigir yng Nghaerllion a Rhaglan gael eu cymhwyso i'r safleoedd eraill?
Newidiadau yng Nghaerffili	Mae'r canlyniadau yn dangos bod ymwelwyr â Chastell Caerffili wedi'u synnu ar yr ochr orau gan eu profiadau yn dilyn ychwanegu atyniadau newydd. Mae'n ddyddiau cynnar ac felly dylai Cadw fonitro effeithiau'r atyniadau newydd ar brofiad ymwelwyr dros y tymor hirach.
Angen gwybodaeth well yng Nghonwy	Mae barn am fformat y wybodaeth yng Nghastell Conwy wedi gwaethygu'n sylweddol ers haf 2015, a dyma'r safle â'r sgôr isaf ar gyfer hyn bellach. Efallai ei bod yn amser ystyried gwella apêl y wybodaeth a ddarperir yno.
Arweinyfr B yn colli ei le	Ymhlith y tri arweinyfr, mae'n amlwg y dylid rhoi Arweinyfr B (mawr a thenau – £3.50) o'r neilltu os dewisir safoni'r fformat. Dyma'r arweinyfr sy'n cael ei ffafrio lleiaf gan bob math o ymwelydd ar bob agwedd.
Arweinyfr A yn erbyn C	<p>Os gellid cadw dau fformat, mae Arweinyfr A (mawr a thrwchus – £4.95) ac C (bach ac yn plygu allan – £2.50) yn ategu ei gilydd yn dda. Mae Arweinyfr A yn addas ar gyfer y rhai sydd eisiau gwybodaeth gynhwysfawr a/neu gofrod, tra bo Arweinyfr C yn ddewis llai a rhatach da ar gyfer y rhai sydd eisiau gwybod y pethau sylfaenol yn unig a/neu sy'n cario llwyth beichus o bethau cysylltiedig â phlant.</p> <p>Os mai un fformat yn unig sydd i'w ddefnyddio yn y dyfodol, Arweinyfr A fyddai'n ymddangos fel y fformat gorau i'w gadw oherwydd ei fod yn cael ei ffafrio am ei ddyluniad ac y gellir ei werthu am ddwbl y pris wrth gael ei ystyried i fod o well gwerth o hyd. Gallai Cadw ystyried lleihau maint Arweinyfr A i rywbeth tebycach i C, ond byddai hyn yn golygu naill ai cynyddu pa mor drwch ydyw neu leihau faint o wybodaeth sydd ynddo. Gallai hyn fod yn risg oherwydd y gallai beryglu'r rhesymau dros ei boblogrwydd presennol.</p>